

## **Adroddiad Cynghorydd Sian Gwenllian MEHEFIN 2015**

1)**TORIADAU**: mae Cyngor Gwynedd, fel bob cyngor yn gorfod torri ar wariant. Rwyf yn mynychu cyfres o 5 o weithdai i drafod y posibiladau cyn fod y cyhoedd yn cael rhoi eu barn ar ba wasanaethau fydd yn cael eu torri. Bydd angen i'r Cyngor gytuno ar werth £9M o doriadau erbyn Mawrth 2016.

2)**Neuadd yr Eglwys** : bum mewn cyfarfod adeiladol i drafod gwella'r Neuadd a gwneud defnydd o'r tir tu cefn ar gyfer llofydd parcio i'r pentref.

3)**Llwybr Stepiau Cei** : mae'r Cyngor wedi ei ail-agor ond wedi diogelu gwaelod y stepiau lle mae pryder o hyd am ddiogelwch y cyhoedd.

4)**Cais Cynllunio Cae Fodol** : yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio 15.06.2016

5)**Toiledau cyhoeddus y traeth**: trafodaethau yn parhau i wella'r ardal. 6)**Llwybr yr Arfordir** : trafodaethau yn parhau.

7)**Ffordd Tafarngrisiau** : ar restr waith y Cyngor.

8)**Cae Chwarae ger yr Ysgol** : bydd gwaith yn digwydd dros yr haf i godi safon y cae. Nid yw'r Clwb Pêl-droed yn bwriadu parhau a'u cais am gae synthetig gan nad yw'n debygol y byddai grant ar gael gan fod cyfleusterau tebyg yn cael eu datblygu yng Nghaernarfon.

9)**Llwybrau Hen Gei Llechi** : mae disgwyl i gais cynllunio gael ei gyflwyno ar gyfer y giatiau.

10)**Cae Rowen** : Rwyf wedi casglu barn y trigolion lleol am y cais cynllunio i godi 14 tŷ . Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais. **Llwybr Rowen** : disgwyl clywed a fydd grant ar gael i wella'r llwybr.

11)**Grŵp Iaith Y Felinheli** : llawer o waith yn mynd mlaen. Bydd fidio yn cael ei dangos yn ystod Gwyl y Felin.

12)**Gwyl y Felin** : rwyf ar y pwyllgor. Rhaglen yn cael ei dosbarthu o gwmpas y tai. Gwybodaeth ar y wefan [www.gwylfelin.org](http://www.gwylfelin.org) ac ar dudalennau Facebook y pentref. Bydd ffyrdd ar gau yn ystod yr Wyl (gwybodaeth i ddilyn.)

13)**Siglen ar gyfer plant anabl**: rwyf wedi cychwyn trafod y posibilrwydd o gael siglen newydd. Rydym dal i ddisgwyl faint yn union ddaw gan y cwmni ynni haul yn Parcia ond gall fod prynu siglen newydd yn ddefnydd da o'r arian.

14)**Parc Cychod Lan y Mor** : mae'r rheiliau oedd wedi malu wedi eu tynnu . Bydd y Cyngor yn monitro'r defnydd o'r ardal.

15) Da gweld y 'falwoden' ar **arwyddion 20MPH** ger Y Wern. Diolch i blant yr ysgol.

16) Rwyf yn parhau i gynnal sesiynau yn **Felin Sgwrsio** ( adeg tymor ysgol) ar foreau Gwener 10.30 – 11.30. Rwyf yn anfon gwybodaeth cyson i [www.felinheli.org](http://www.felinheli.org) a thudalen Facebook Felinheli am weithgareddau yn y pentref a fy ngwaith fel Cynghorydd. Hefyd yn dosbarthu cylch-lythyr yn y pentref yn ogystal ag ar e-bost. **DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH CYSON.**

